



CYNGOR TREF
AMLWCH
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Llawr y Llan, Lon Goch, Amlwch, Ynys Mon, LL68 9EN
Epost/Email: swyddfa@cyngortrefamlwch.co.uk
Ffon/Tel: 01407 832 228

Cyngor Tref Amlwch Town Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth Tachwedd 27 2018 yn Siambr y Cyngor am 7yh.
Minutes of the meeting held at the Council Chamber on Tuesday November 27 2018 at 7pm.

Presennol/Present: Gordon Warren (Cadeirydd/Chair), Gareth Winston Roberts OBE, Myrddin Owens, Mike Roberts, Kevin Ellis, Meg Roberts, Tony Fitzmaurice, Richard Jones, Julie Ann Hughes

Yn bresennol/In attendance: Carli Evans-Thau (Clerc/Clerk) Hywel Hughes (Cyfieithu/Translation), Rhys Davies (Cadnant), Sarinah Farooq (Cadnant), Aelodau o'r cyhoedd / *Members of the public.*

Ymddiheuriadau/Apologies: John Byast, Gerry Belanger, Gina Jones, Liz Wood, Carys Cranston, Cyng/Cllr Aled Jones

1 Croeso/Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan Gordon Warren ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by Gordon Warren and all present were welcomed.

2 Datgan Diddordeb/Declaration of Interest

Richard Jones – materion cynllunio/planning matters; ysgolion/schools
Gareth Roberts – Craig y Don

3 Cynllunio Cadnant Planning – Gwesty Bull Bay Hotel

Croesawyd cynrychiolwyr Cadnant a diolchwyd iddynt am ddod i drafod y cynlluniau gyda'r aelodau. Nodwyd nad oes cais cynllunio ffurfiol wedi ei gyflwyno eto, ac mai cyfnod ymgynghori anffurfiol yw hwn, ac felly cyfle i gyflwyno a thrafod y cynlluniau a rhannu syniadau. Nodwyd bod angen ymateb i'r ymgynghoriad erbyn diwedd y mis.

Yn dilyn cyflwyniad ar y datblygiad arfaethiedig, trafodwyd y wybodaeth oedd wedi ei rannu. Nodwyd bod mwy o wybodaeth a chynlluniau manwl i'r canfod ar wefan y cwmni, Roedd yr aelodau yn croesawu datblygiad ar y safle gan fod cyflwr yr adeilad adnabyddus yn dirywio. Croesawyd hefyd siop a chaffi/bwyty ynghyd a chyfleusterau llety. Nodwyd pryderon fodd bynnag am or-ddatblygiad gyda dau uned byw yng nghardd y llety, ger y llithrfa. Teimlai'r aelodau byddai unedau o'r fath yn well wedi eu lleoli yn y maes parcio presennol, ger y bwyty arfaethiedig. Nodwyd bod diffyg parcio yn y pentref yn bryder heddiw ac y byddai angen sicrhau bod llefydd parcio digonol yn cael eu paratoi ar gyfer y datblygiad. Gobeithir hefyd byddai'r datblygwr yn cydnabod iaith yr ardal. Bu i gynrychiolwyr Cadnant adael y cyfarfod.

Cadnant representatives were welcomed and thanked for attending the meeting to discuss the plans with the members. It was noted that no formal application had been submitted yet, and that this was an informal consultation period, and an opportunity to present and discuss the proposals and share ideas. The deadline to respond to the consultation is the end of the month.

Following a presentation on the proposed development, the information shared was discussed. It was noted that further information and detailed plans were available on the company's website. Members welcomed the development on the site as the condition of the landmark building is deteriorating. A shop and café/restaurant along with accommodation was also welcomed. Concern

was raised however regarding over development with two living units in the garden of the hotel by the slipway. Members felt that these units would be better sited on what is currently the car park, by the proposed restaurant. It was noted that lack of parking is already an issue in the village and that the developer needs to ensure sufficient parking is allocated for the development. It is hoped that the developer would also acknowledge the linguistic nature of the area. Cadnant representatives left the meeting.

O hyn allan bu i'r cyfarfod gael ei recordio / From now on, the meeting was recorded.

4 Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod yn gywir wedi'r gwelliannau canlynol:

4 – Nododd Meg Roberts ei bod wedi datgan mai yn y Siambr dylid gwestiynnu ac nid ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook.

11 – Siapio Cymunedau – Cadarnhawyd bod tri eitem wedi eu trafod a cytuno yn y cyfarfod diwethaf sef gwaith, tai a thrafnidiaeth. Nid oedd pob aelod wedi cydnabod hyn mewn cyfarfod pellach i drafod y cynllun.

15.4 – Cadarnhawyd mai cyfrifoldeb cyfreithiol y Cyngor Sir yw priffyrdd a thrafnidiaeth.

Cynnig Myrddin Owens, eilio Gareth Roberts.

The minutes were confirmed a true record with the following improvements:

4 – Meg Roberts noted that she had stated that the Chamber is the place to question and not on social media such as facebook.

11 – Place Shaping – it was confirmed that three items had been discussed and agreed at the last meeting, these being, employment, housing and transport. Not all members had acknowledged this in a further meeting to discuss the scheme.

15.4 – It was confirmed that highways and transport were the legal responsibility of the County Council.

Proposed Myrddin Owens seconded Gareth Roberts.

5 Materion yn codi/Matters Arising

5.1 Prydles Maes Llwyn Lease

Cadarnhaodd Richard Jones bydd y les yn cael ei baratoi cyn dechrau'r gwaith ar y tir yn fuan yn y flwyddyn newydd. Diolchwyd iddo am y diweddariad.

Richard Jones confirmed that the lease will be prepared before the work on the land commences early in the new year. He was thanked for the update.

5.2 Datblygu Economaidd/Economic Development (Dylan Williams)

Cadarnhawyd bydd cyfarfod arbennig i'w gynnal nos Fawrth Rhagfyr 4ydd 2018 yn Siambr y Cyngor am 7 o'r gloch.

Confirmed that an extraordinary meeting will be held Tuesday evening December 4th 2018 at the Council Chamber at 7pm.

5.3 Age Well

Gweler adroddiad pwyllgorau allannol / See report from external meetings.

5.4 Cyrhaeddiadau'r Cyngor Tref/Town Council's Achievements

Nodwyd bod y datganiad a wnaed gan Richard Jones yn y cyfarfod diwethaf ynglyn a diffyg y Cyngor Tref yn wallus. Nododd y Cadeirydd nad oedd sail i'r datganiad a'i fod yn niwedidio delwedd y Cyngor. Nododd bod angen cadarnhau'r hyn oedd y Cyngor wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf.

Nododd Richard Jones mai sail ei ddatganiad oedd sut oedd y Cyngor yn cael ei weld gan y gymuned yn gyffredinol.

Darlennwyd adroddiad gan Gareth Roberts yn amlinellu dim ond rhai o gyrhaeddiadau diweddar y Cyngor. Yn ystod y cyflwyniad, fe ofynnodd y Cadeirydd i'r cyhoedd, yn benodol Mr WG Davies, i barchu'r siaradwr ac ymddwyn yn briodol. Diolchwyd i Gareth Roberts am ei gyflwyniad, ac fe ofynwyd i Richard Jones beth oedd wedi ei gyflawni yn y saith mlynedd diwethaf. Nododd Richard Jones mai dimond ers chwe mlynedd yr oedd yn gynghorydd, a'i fod wedi bod ynghlwm a sicrhau arian i uwchraddio Brwynog.

It was noted that the statement made by Richard Jones at the last meeting regarding the lack of the Town Council was inaccurate. The Chairman noted that the statement was no basis to the statement and that it harmed the Council's image. He noted that there was a need to confirm what the Council had achieved over recent years.

Richard Jones noted that the basis of his statement was how the Council was perceived by the community as a whole.

A report was read by Gareth Roberts outlining just some of the Council's recent achievements. During the presentation, the Chair asked the public, in particular Mr WG Davies, to respect the speaker and behave appropriately. Gareth Roberts was thanked for his presentation, and Richard Jones was asked what had been done in the last seven years. Richard Jones noted that he had been a councillor for six years and had been involved and secured money to upgrade Brwynog.

5.5 Arian Wrth Gefn / Free Reserves

Cafwyd esboniad pellach gan Myrddin Owens pam fod arian wedi ei drosglwyddo i gyfrif 'Shell' y Cyngor Tref. Roedd yr archwiliwr allannol yn teimlo fod gan y Cyngor ormod o arian wrth gefn nad oedd wedi ei glustnodi. (Mae gan Cyngor yr hawl i gadw arian heb ei glustnodi hyd at gwerth yr archeb blynyddol – tua £90k yn achos Amlwch). Mae'r arian yma, gan gynnwys yr arian cafodd ei drosglwyddo, yn parahau dan rheolaeth y Cyngor Tref. Wrth drosglwyddo'r arian i gyfrif 'Shell' y Cyngor Tref, mae'r arian wedi ei glustnodi er mwyn cefnogi mudiadau a phrosiectau lleol.

Fe ofynnodd Richard Jones a fyddai posib cynnwys arian 'Shell' ar agenda'r cyfarfod nesaf er mwyn trafod ymhellach pan fydd mwyn o aelodau yn bresennol.

Myrddin Owens further explained why money had been transferred to the Town Council's 'Shell' account. The external examiner felt that the Council's free reserves were too high (A Council has the right to keep unmarked money up to the value of the annual precept - about £ 90k in Amlwch's case). This money, including the money transferred, continues to be under the control of the Town Council. By transferring the money to the Town Council's 'Shell' account, the money has been earmarked to support local organizations and projects.

Richard Jones asked if it would be possible to include 'Shell' money on the agenda of the next meeting to discuss further when more members were present.

5.6 Cydnabyddiaeth Ariannol/Financial Remuneration

Nododd Myrddin Owens bod ebost wedi ei dderbyn gan Carys Cranston yn nodi ei bod wedi siarad a chynghorwyr eraill a'u bod ardeall bod arian ar gyfer taliadau cydnabyddiaeth i aelodau i'w hawlio yn ol gan Lywodraeth Cymru. Cadarnhawyd nad oedd hyn yn gywir ac y byddai unrhyw daliadau o'r fath yn cael eu hariannu o'r dreth oedd yn cael ei godi ar drigolion y dref.

Myrddin Owens noted that an email had been received from Carys Cranston stating that she had spoken with other councillors and that they were of the understanding that the money for remuneration for members was available to claimed back from the Welsh Government. It was confirmed that this was not correct and any such payments would be funded from the tax that was charged to the town's residents.

5.7 Rhosgoch

Nododd Gareth Roberts ei fod yn bryderus bod Amlwch yn methu allan ar gyfleoedd posib. Nid

oedd Richard Jones yn ymwybodol o unrhyw ddatblygiadau pellach gyda Land and Lakes yng Nghaergybi. Deallwyd bod y cwmni yn gwrthwynebu gwrsyll i 4000 ar safle Wylfa Newydd yn Gemaes ac yn brwydro i newid hyn. Gofynnwyd eto pam fod polisiau CSYM wedi eu newid mewn perthynas a'r safle, byddai posib datblygu nifer o swyddi lleol hir dymor ochr yn ochr a datblygiad Wylfa Newydd. Cytuno ysgrifennu at CSYM eto i ofyn pam nad oeddent yn cefnogi datblygiad Safle Rhosgoch.

Gareth Roberts noted that he was worried that Amlwch was missing out on potential opportunities. Richard Jones was not aware of any further developments with Land and Lakes in Holyhead. It was understood that the company is objecting to the camp for 4000 workers on the Wylfa Newydd site in Cemaes and was working to change this. It was again asked why the IACC policies had been changed in relation to the site, it would be possible to develop a number of long term local jobs alongside the Wylfa Newydd development. Agree to write to the IACC again to ask why they did not support the development of the Rhosgoch Site.

5.8 Craig y Don

Nododd Myrddin Owens bod trigolion Craig y Don yn bryderus bod CSYM wedi sicrhau llai o arian grant na'r disgwyl ac felly byddai llai o waith diogelu yn cael ei gwblhau yn y stad. Nododd Richard Jones bod camau yn cael eu cymryd a gwaith yn symud yn ei flaen. Bydd llythyrau yn cael eu hanfon allan i'r trigolion hynnu sydd wedi eu heffeithio o fewn yr wythnos gyda diweddariad. Cydnabuwyd bod blwyddyn bellach ers y cyfarfodydd cychwynol ble ddywedodd yr Arweinydd byddai arian CSYM ar gael i ddiogelu trigolion a'u heiddo.

Myrddin Owens noted that Craig y Don residents were concerned that as IACC has secured less grant funding, less safeguarding work would be completed. Richard Jones noted that steps were being taken and work moving forward. Letters will be sent out to affected residents within the week with an update. It was acknowledged that it is a year since the initial meetings where the Leader stated that IACC money would be made available to safeguard the residents and their property.

5.9 Sul y Cofio/Remembrance Sunday

Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd wedi bod ynghlwm a'r dathliadau a gweithgareddau cofio yn yr ardal. Ategwyd y diolch gan yr aelodau.

The Chair thanked all involved with the celebrations and remembrance activities in the area. This was reiterated by the members.

5.10 Cofrestr Diddordebau/Register of Interests

Nodwyd nad oedd llawer o aelodau wedi dychwelyd y ffurflenni hyd yma. Cdarnhawyd bod copiau caled wedi eu hanfon i'r holl aelodau.

It was noted that not many members had returned the completed forms as yet. It was confirmed that hard copies of the form had been sent to all members.

6 Pwyllgorau Allannol / External Meetings

Dosbarthwyd adroddiad yn dilyn cyfarfod gyda ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa i bawb oedd yn bresennol. Cytuno na all y Cyngor gymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.

Copies of the report following a meeting with the Memorial Hall trustees were distributed to those present. Agreed that the Council cannot take further action at present.

7 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Finance Committee Report

Cafwyd grynodedb o'r cyfarfod gan Myrddin Owens. Bu i'r clerc, aelodau'r cyhoedd a'r wasg adael y cyfarfod tra bu i Myrddin Owens roi diweddariad gan ym ombwdsmon am y gwyn ynglyn ag aelod.

Cafwyd wybod bod rhestr o daliadau wedi eu cymeradwyo – mwy o wybodaeth gan y clerc. Cafwyd gais am gymorth ariannol gan Gylch Meithrin Amlwch, gyda'r pwyllgor yn cytuno cyfrannu £1200. Ni fu gwrthwynebiad. Bu adroddiad gan y clerc am gynllun y llithrfa gan nodi bod £1000 i'r Cyngor Tref ar ddiwedd y tymor.

Cafwyd wybod bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda'r Clwb Pel Droed i drafod eu pryderon a

cwestiynnau ynglyn a'r prydles. Cytuno defnyddio cyfreithiwr TR Evans, Amlwch i gwblhau'r prydles ar gyfer y sgowtiaid.

Roedd yr aelodau yn gwrthwynebu argymheliant Panel Cydnabyddiaeth Cymru i gynyddu'r tal sydd ar gael i gynghorwyr sirol. Gofynnwyd i'r cynghorwyr sirol beidio a derbyn y cynydd yn eu tal.

Trafodwyd ymgynghoriad cyllideb CSYM 2019/20. Nodwyd siom bod cynnig i dorri gwasanaethau bws sydd yn effeithio yn uniongyrchol ar drigolion ardal Amlwch. Dydy'r gwasanaeth ddim yn ddelfrydol fel ag y mae ac mae nifer o bobl yn ddibynnol ar y bysiau i gyrraedd eu gwaith a/neu hyfforddiant.

Myrddin Owens gave a summary of the meeting. The clerk, members of the public and press left the meeting whilst Myrddin Owens gave an update from the ombudsman about the complaint regarding a councillor.

Those present were informed that a list of payments had been approved – more information available from the clerk. A request for financial information was received from Cylch Meithrin Amlwch, with the committee agreeing to contribute £1200. There was no objection. The clerk gave a report on the slipway scheme, noting that there is £1000 for the Town Council at the end of the season.

Those present were informed that a meeting is being arranged with the Football Club to discuss their concerns and questions regarding the lease. Agreed to appoint TR Evans solicitors to complete the lease for the scouts.

The members objected to the Remuneration Panel's recommendation to increase the payment available to county councillors. The county councillors were asked not to accept the pay increase.

The IACC budget consultation 2019/20 was discussed. Disappointment was noted that proposals were included to cut bus services that would directly impact Amlwch residents. The service is already less than desirable and a number of people are dependent on the busses to reach their place of work and /or training.

8 Adroddiad Parciau a Mannau Agored/Parks and Open Spaces Report

Nododd Mike Roberts ei siom nad oedd ganddo adroddiad i'w gyflwyno gan nad oedd cworwm i gynnal y cyfarfod diwethaf. Mae'r pwyllgor wedi cytuno cwrdd pob yn ail mis, gyda dyddiadau wedi eu cytuno nol yn yr haf. Dyma'r ail waith nad yw wedi bod yn bosib cynnal cyfarfod oherwydd diffyg presenoldeb. Cadarnhawyd pwy oedd yn aelod o'r pwyllgor. Mae'n hanfodol bwysig bod y pwyllgor yn cwrdd cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor cyllid i drafod cyllideb 2019/20.

Cafwyd wybod nad oedd diweddariad am y cais loteri hyd yma. Mae Richard Jones eisioes wedi esbonio sefyllfa prydles Maes Llwyn. Nodwyd bydd cyfarfod i'w gynnal yn fuan gyda cynrychiolwyr Caru Amlwch ynglyn a gosod offer chwarae yng Nghraig y Don. Diolchwyd i Garu Amlwch am ddiogelu arian ar gyfer 'bug hotels'. Mae angen trafod ymhellach i gadarnhau ymhle byddent yn cael eu gosod.

Mike Roberts noted his disappointment that he did not have a report to present as there was no quorum to hold the last meeting. The committee have agreed to meet every other month with dates being set back in the summer. This is the second time that it has not been possible to hold the meeting due to lack of attendance. It was confirmed who were members of the committee. It is essential that the committee meet prior to the next finance committee to discuss the budget for 2019/20.

Mike Roberts noted that there is no update on the lottery application as yet. Richard Jones has already explained the situation regarding the lease for Maes Llwyn. It was noted that a meeting is to be held shortly with representatives of Caru Amlwch regarding installing play equipment at Craig y Don. Caru Amlwch were thanked for securing funding towards bug hotels. Further discussion is required as to where they will be installed.

9 **Adroddiad Pwyllgor y Fynwent / Cemetery Committee Report**

Cafwyd adroddiad gan Meg Roberts yn dilyn cyfarfod diwethaf y pwyllgor ac fe ddosbarthwyd copiau o'r adroddiad i rheini oedd yn bresennol. Cafod y pwyllgor eu llongyfarch am eu gwaith gan nodi bod y fynwent yn cael ei gynnal i safon uchel.

Meg Roberts gave a report following the last committee meeting and copies of the report were distributed to those present. The committee were congratulated for their work noting that the cemetery is maintained to a high standard.

10 **Peilonnau a Wylfa Newydd and Pylons**

Mae'r dyddiad cau ar gyfer cofrestru diddordeb gyda'r arolygaeth gynllunio 29/11/2018. Cytuno byddi'r Cyngor yn cofrestru. Roedd yr aelodau yn gwrthwynebu peilonau ac yn cefnogi gosod y ceblau o dan y mor.

The deadline to register interest with the planning inspectorate is 29/11/2018. Agreed that the council would register. The members were opposed to more pylons and supportive of sub-sea cables.

11 **Adolygu Darpariaeth Addysg / Review of Education Provision**

Nodwyd bod y wybodaeth angenrheidiol i'r gael ar y we ac wedi ei anfon i'r aelodau drwy ebost. Bydd cyfle i drafod y mater yn llawn 4/12/2018. Fe ofynnodd Gareth Roberts os oedd y system ymgynghori wedi newid erbyn hyn a'i fod yn bryderus iawn o'r amseru wrth gydnabod polisi newydd Llywodraeth Cymru. Nododd Richard Jones mai cyfnod ymgysylltu ychwanegol oedd hwn a byddai ymgynghori statudol, ffurfiol i ddilyn.

Roedd Kevin Ellis ar ddeall bod YSTJ wedi cael arolwg da gan Estyn a bod adroddiad i ddod. Cytuno ysgrifennu i'w llongyfarch unwaith bydd yr adroddiad wedi ei gyhoeddi. Deallwyd ganddo hefyd bod Ysgol Gynradd Amlwch ar fin cael arolwg Estyn eu hunain. Cytuno cysylltu i ddymuno'r gorau iddynt.

It was noted that the relevant information was available online and had been sent to all members by email. There will be an opportunity to discuss the matter in full 4/12/2018. Gareth Roberts asked whether the consultation system had changed and that he was very concerned about the timings acknowledging Welsh Governments new policy. Richard Jones noted that this was an additional period of engagement and that formal, statutory consultation would follow.

Kevin Ellis understood that YSTJ had recently had a successful inspection by Estyn and that the report was to follow. Agreed to write to the school to congratulate them once the report was published. It was understood that Amlwch primary school were to undergo similar such inspection in the next week. Agreed to contact them to wish them the best.

12 **Siapio Cymunedau / Place Shaping**

Nodwyd bod Carys Cranston wedi bwriadu adrodd yn ol yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Nid oedd adroddiad ysgrifennedig. Cytuno cynnwys yr eitem i'w drafod ar agenda'r cyfarfod nesaf.

It was noted that Carys Cranston has intended to feed back after the latest meeting. There was no written report. Agreed to include the item on the agenda for the next meeting.

13 **Gwasanaeth Bysiau / Bus Service**

Nodwyd bod ymgynghortiad ar hyn o bryd ar newidiadau i wasanaeth bysiau. Cytuno anfon adborth fel nodwyd yn adroddid y pwyllgor cyllid, a hefyd dwyn i sylw swyddogion CSYM 4/12/2018. Mae nifer fawr o bobl Amlwch yn ddibynnol iawn ar y bysiau i gyrraedd eu gwaith neu hyfforddiant.

It was noted that there is currently a consultation on changes to the bus service. Agreed to send feedback as noted in the finance committee report, and also bring to the attention of the IACC officers 4/12/2018. Many Amlwch people are dependent on busses to reach their place of work or training.

14 **Pryderon Parcio a Goryrru / Parking and Speeding Concerns**

Cafwyd wybod gan Meg Roberts bod goryrru yn parhau yn broblem ym Mhenycefn a ger Pont Ffatri

tuag at y stad fusnes. Nid oes gofyn am dympathau ar y lon, ond yn hytrach gwell monitro gan swyddogion CSYM a'r heddlu. Gofynnwyd a fyddai posib cael 'arrive alive' yn am gyfnod. Nodwyd bod gan rhai ardaloedd arwyddion a 'cut outs' wedi eu siapiro fel plismyn a'neu camerau er mwyn atgoffa gyrrwyr i wyllo eu cyflymder. Mae hefyd pryderon yn parhau am barcio a'r nifer o gerbydau ger yr ysgolion yn y boreau ac ar amser casglu plant. Mae damwain yn disgwyl digwydd yma. Cytuno codi ymwybyddiaeth CSYM eto a gofyn am i'r wardeniaid traffig a'r heddlu ymweld yn reolaidd. Roedd Richard Jones am gysylltu a'r swyddogion perthnasol gan nodi eu bod yn ymweld a'r ardal yn eithaf rheolaidd yn barod. Nodwyd bod dal i ddisgwyl i CSYM ddileu'r gwaharddiadau parcio tu allan i'r hen Swyddfa Bost a thu allan i Spar. Cafwyd wybod bod llinellau melyn ar y gweill ar gyfer rhannau o Stryd Salem fel sydd wedi eu trafod yn y gorffennol.

Meg Roberts noted that speeding continues to be of concern in Penycefn and also by Pont Ffatri towards the business park. Speed bumps are not required rather better monitoring by IACC officers and the police. It was asked whether it would be possible to request the presence of the arrive alive van. It was noted that some areas have additional signage and 'cut outs' shaped as policemen and cameras to remind drivers to watch their speed. There is continued concern for parking and the number of vehicles by the schools in the mornings and at collection times. It is an accident waiting to happen. Agreed to raise awareness with IACC and ask again that the traffic wardens and police visit regularly. Richard Jones would contact the relevant officers, noting that they do visit the area on a regular basis. It was noted that IACC still haven't removed the parking restrictions outside the old post office or Spar. It is understood that yellow lines will be painted on parts of Salem St soon as previously discussed.

15 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors

Fe ofynnwyd a fyddai posib cadarnhau cyn 4/12/2018 faint o arian Horizon a Magnox sydd weidi ei wario ar ddatblygu unedau busnes yng Nghaergybi a Llangefni. Bydd cyfle i ymhelaethu gyda Dylan Williams (datblygu economaidd) yn y cyfarfod arbennig 4/12/2018. Nodwyd er bod yn dda gweld buddsoddiad yng Ngoleg Menai, mae hefyd angen sicrhau bod yr ardal gyfan yn elwa – oes posib efallai cynnal peth hyfforddiant ar safle YSTJ i arbed costau theithio er enghraifft. Roedd pryder nad oedd swyddogion CSYM yn gallu adnabod y tir sydd wedi ei glustnodi ar gyfer datblygiadau diwydiannol a/neu thai yn y dref.

It was asked whether it would be possible to confirm before 4/12/2018 how much Magnox and Horizon funding had been invested into developing new business units at Holyhead and Llangefni. There would be an opportunity elaborate with Dylan Williams (economic development) at the extraordinary meeting 4/12/2018. It was noted that although good to see investment at Coleg Menai, it is essential that the area as a whole also benefits – would it be possible to maybe offer some training on the YSTJ site to reduce travel and transport costs for example?. There were concerns that IACC officers could not identify the land that has been earmarked for development for industry/housing in the town.

16 Cyfryngau Cymdeithasol / Social Media

Nodwyd mai Carys Cranston oedd wedi gofyn i'r eitem yma gael ei gynnwys ar yr agenda ond nad oedd yn bresennol. Cytuno ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod cyffredin nesaf. Nododd Tony Fitzmaurice mai sut oedd y cyhoedd yn gweld delwedd y Cyngor ar y we oedd dan sylw, ac y byddai o fudd efallai i gael safle facebook neu twitter wedi ei ddiweddarau yn reolaidd. Bydd cyfle i drafod opsiynau ynghyd a sialensau yn y cyfarfod nesaf.

It was noted that Carys Cranston had asked for this item to be included on the agenda and that she was not present. Agreed to include the item on the agenda for the next ordinary meeting. Tony Fitzmaurice noted that the public perception of the Council online was to be discussed and that it may be of benefit to have a facebook or twitter page update regularly. An opportunity to discuss options and challenges will be provided at the next ordinary meeting.

17 Llwybr Maes Salem Path

Nodwyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Sir oedd cynnal y llwybr a'r tarmac. Nodwyd bod cyflwr y llwybr erbyn hyn yn golygu nad oedd rhai trigolion yn gallu gadael eu cartrefi. Deallwyd bod y cynghorwyr sirol eisioes yn ymwybodol. Richard Jones i wneud ymholiadau pellach.

It was noted that it is the County Council's responsibility to maintain the path and tarmac. It was

noted that the condition of the path now has resulted in some residents unable to leave their homes. It was understood that the county councillors were already aware of the matter. Richard Jones to make further enquiries.

18 Gohebiaeth / Correspondence

18.1 Cafwyd wybod am benderfyniadau cynllunio diweddaraf y Cyngor Sir. Nodwyd bod da gweld cefnogaeth i uwchraddio siop Co-op yn y dref. Nodwyd hefyd bod y Cyngor Tref wedi bod yn ceisio denu siopau eraill tebyg i'r dref a bod eu asiant wedi ymweld a'r ardal. Nid oes unrhyw waharddiadau cynllunio penodol yn eu hatal rhag datblygu yma.

Information was provided on the County Council's latest planning decisions. It was noted that support to upgrade the Co-op shop was welcomed. It was also noted that the Town Council has been trying to draw other such shops to the town and that their agent had visited the area. There are no specific planning restrictions to prevent such development.

18.2 Nodwyd bod ymgynghoriad ar doiledau cyhoeddus i lunio strategaeth ar gyfer CSYM. Cytuno trafod ymhellach yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

It was noted that there was currently a consultation regarding public toilets in order to develop a strategy for IACC. Agreed to discuss at the next ordinary meeting.

19 Unrhyw Fater Arall/Any Other Business

Dim/None

20 Dyddiad y cyfarfod nesaf/Date of next meeting

Cynhelir cyfarfod arbennig i drafod materion economaidd ac addysg nos Fawrth Rhagfyr 4 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor. Cynhelir y cyfarfod cyffredin nesaf Nos Fawrth Rhagfyr 18 am 7 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.

An extraordinary meeting to discuss economic issues and education will take place Tuesday December 4th at 7pm at the Council Chamber. The next ordinary meeting will take place on Tuesday December 18th at 7pm at the Council Chamber.

Bu'r cyfarfod orffen am 21.10 / *The meeting closed at 21.10*

CET11/2018

Arwyddwyd / Signed:
Gordon Warren, Cadeirydd / Chair